

The logo consists of a red trapezoidal shape. Inside, the text 'WcVA' is written in white, bold, sans-serif font. A thin white horizontal line is positioned below 'WcVA', and the text 'CgGC' is written in the same white, bold, sans-serif font below the line.

**WcVA**  
**CgGC**

## **Cronfa Gymunedol Comic Relief yng Nghymru – Dyfarniadau Twf Sefydliadol 2022-23**

Mudiad	Disgrifiad o'r Prosiect	Cais am grant
Prosiect Newid y Gêm	Bydd Dysgu a Thyfu yn paratoi ein mudiad â sgiliau busnes a marchnata er mwyn sefydlu ffrydiau incwm newydd ac arloesol. Drwy hybu sgiliau ein mudiad, byddwn yn gwella ein cynaliadwyedd hirdymor ac yn y pen draw yn helpu mwy o bobl ifanc i gyrraedd eu potensial llawn.	£36,952.00
Operasonic	Byddwn yn adeiladu ein capasiti craidd gan herio'r modelau datblygu arweinyddiaeth presennol. Byddwn yn datblygu arweinydd newydd ac yn cynyddu gwydnwch a chyrhaeddiad y mudiad. Byddwn yn creu newid ledled y sector i gefnogi arweinyddiaeth amrywiol. Byddwn yn fodel rôl i ymarfer positif. Ar ddiwedd y cyfnod cyllido, byddwn wedi datblygu cynllun busnes tair blynedd.	£30,247.00
Little Lounge	Bydd y cyllid yn ein galluogi i gyflogi staff i roi trosolwg a datblygu'r busnes, yn enwedig o ran lansio'r 'Eco Pantry'. Bydd y capasiti hwn yn sicrhau bod y fenter a'r ochr ariannol yn cael eu rheoli'n effeithiol ac yn effeithlon. Bydd hyn yn datblygu ffordd newydd o gynhyrchu incwm a fydd yn ein helpu i'n rhoi	£22,580.36

	ni mewn sefyllfa fwy iachus a gwydn wrth symud ymlaen fel mudiad; bydd hyn yn ei dro yn galluogi twf parhaus yn yr hirdymor.	
Citrus Arts	Trwy gynnal rhaglen o asesiadau mewnol o'r mudiad, sesiynau cynllunio busnes ymgynghorol a gweithio drwy broses Damcaniaeth Newid, rydym wedi pennu mai'r hyn sydd ei angen ar y mudiad ar hyn o bryd i alluogi twf yw mwy o gapasiti i ryddhau amser arweinwyr fel y gallant ddatblygu'r mudiad yn strategol.	£30,562.64
Gwirfoddolwyr Hosbis yn y Cartref Aberystwyth a'r Cylch (HAHAV)	Bydd HAHAV yn recriwtio ac yn darparu cyllid sbarduno ar gyfer swydd 'Pennaeth Manwerthu' am 12 mis, er mwyn goruchwylio datblygiad a gweithrediad strategaeth fanwerthu drawsnewidiol. Rydym yn ceisio cynyddu elw'r elusen ar fuddsoddiadau ar gyfer ei siop a'r warws presennol yn Aberystwyth, ac yn edrych am gyfleoedd i ehangu'r ochr fanwerthu ledled Ceredigion.	£39,658.00